Cartrefi Cymunedol Cymru | Community Housing Cymru

# **Adroddiad trylowyder tâl prif weithredwyr** 2022–23

Chwefror 2024

## Contents

**Cyflwyniad** ..... **02**

**Cefndir** ..... **02**

**Tâl prif swyddogion gweithredol** ..... **03**

Cymharu cyflogau Prif Swyddogion Gweithredol gyda chyflogau canolrif a nifer y staff yn ennill mwy na £100,000 y flwyddyn ..... 06

Buddion Prif Swyddogion Gweithredol ..... 10

**Cymeradwyo dyfarniad tâl uwch swyddogion** ..... **12**

**Tâl i aelodau bwrdd** ..... **13**

**Dadansoddiad tâl yn ôl rhywedd** ..... **14**

# Cyflwyniad

Nod yr adroddiad hwn yw rhoi gwybodaeth glir a thryloyw ar dâl uwch swyddogion mewn cymdeithasau tai yng Nghymru.

Mae Cartrefi Cymunedol Cymru (CCC) wedi cyhoeddi adroddiad ar dâl uwch reolwyr ar ran cymdeithasau tai yng Nghymru ers mis Ebrill 2017. Rhwng mis Mai a mis Rhagfyr 2023 fe wnaethom greu grŵp gorchwyl a gorffen i adolygu'r adroddiad. Mae llawer o'n gwelliannau yn ymwneud â symleiddio'r arolwg sy'n bwydo i'r adroddiad hwn, tra bod yr adroddiad ei hun yn dal i ddilyn fformat tebyg i'r hyn a wnaed o'r blaen – cyflwyno gwybodaeth allweddol megis:

- cyflogau a buddion Prif Swyddogion Gweithredol;
- nifer staff yn ennill dros £100,000;
- cyflogau Prif Swyddogion Gweithredol, tâl canolrifol yn y sefydliad a'r gymhareb rhwng y ddau gyflog;
- cydnabyddiaeth ariannol i aelodau bwrdd.

Yn dilyn adborth allanol, ym mhob rhan o'r adroddiad hwn rydym wedi ymdrechu rhoi mwy o fanylion ar sut y caiff penderfyniadau ar dâl uwch swyddogion eu cymeradwyo o fewn cymdeithasau tai.

Cymerodd 34 o gymdeithasau tai Cymru ran yn yr arolwg Prif Swyddogion Gweithredol ym mis Tachwedd 2023. Mae'r data yn cyfeirio at wybodaeth cyflogau ar 1 Ebrill 2021 a 31 Mawrth 2022, ac 1 Ebrill 2022 a 31 Mawrth 2023. Mae'r data ar dâl yn ôl rhywedd yn cyfeirio at 5 Ebrill 2023.

# Cefndir

Mae cymdeithasau tai yng Nghymru yn cyfrannu'n sylweddol at yr economi ac yn sicrhau gwerth rhagorol am arian. Yn 2021/22 fe wnaethant wario £1.3bn, gyda 83% o hynny'n cael ei wario yng Nghymru, ac roedd ganddynt gyfanswm trosiant blynyddol o £1.5bn. Mae'r sector yn cefnogi 27,000 o swyddi yng Nghymru, 11,000 ohonynt yn uniongyrchol[1].

Mae amgylchedd gweithredu cymdeithasau tai yn heriol. Fel yr amlinellodd y Gweinidog dros Newid Hinsawdd a Chadeirydd Cartrefi Cymunedol Cymru yn adroddiad diweddaraf y Cyfrifon Cynhwysfawr ar gyfer blwyddyn ariannol 2021/22:

"Mae Cyfrifon Cynhwysfawr eleni o berfformiad ariannol cymdeithasau tai yn dangos stori o lwyddiant yn wyneb adfyd. Bu'n flwyddyn o gythrwfl parhaus; ers mis Mawrth 2021 bu ansicrwydd sylweddol yn yr hinsawdd macro-economaidd, o donnau pellach o Covid-19, y cynnydd mewn costau byw a chostau ynni, problemau gyda chadwyni cyflenwi a chynnydd prisiau, a'r rhyfel yn Wcráin ymysg pethau eraill.

[1] Cartrefi Cymunedol Cymru, Cyfrifon Cynhwysfawr, 2022

"Fodd bynnag, er gwaethaf y blaenwyntoedd sylweddol hyn, mae'r adroddiad yn dweud stori o hyder parhaus ar draws y sector. Er ei fod yn sicr yn gyfnod anodd, mae'r bartneriaeth unigryw o gymdeithasau fel busnesau cymdeithasol a gefnogir gan Lywodraeth Cymru yn parhau i arwain at fuddsoddiad mewn cartrefi presennol a chartrefi newydd y mae angen mawr amdanynt."

Mae'r sector cymdeithasau tai yng Nghymru yn tyfu: fel ym mis Mawrth 2022, roedd landlordiaid cymdeithasol cofrestredig yn berchen ac yn rheoli dros 173,000 o gartrefi i dros 300,000 o bobl, gan gartrefu un ym mhob 10 o bobl yng Nghymru. Rhagwelir y bydd hyn yn cynyddu i 188,000 erbyn 2027[2].

Mae cymdeithasau tai yn fusnesau cymhleth, ac mae'r sector tai yn cystadlu gyda diwydiannau eraill am weithwyr proffesiynol medrus. Mae'n bwysig y gall y sector tai cymdeithasol barhau i ddenu talent i gadw hyder benthycwyr, a pharhau i gyflawni ar gyfer y cymunedau a wasanaethant.

# Tâl prif swyddogion gweithredol

Mae'r tabl isod yn dangos tâl prif swyddogion gweithredol ar gyfer y blynyddoedd 2021–22 a 2022–23 (1 Ebrill i 31 Mawrth).

Mae'r wybodaeth a roddir yn seiliedig ar gyflog blynyddol crynswth ac nid yw'n cynnwys cyfraniadau pensiwn cyflogwr, treuliau a buddion mewn da.

**Tabl 1:** Tâl prif swyddogion gweithredol wedi'i ddidoli yn ôl rhywedd, y ddwy flynedd flaenorol a newid canran rhwng 2021–22 a 2022–2

| Sefydliad | Rhywedd | Cyflog 21–22 | Cyflog 22–23 | % cynnydd |
|---|---|---|---|---|
| Adra Tai Cyf | Gwryw | 123,261 | 127,576 | 3.50 |
| Barcud Cyf | Gwryw | 114,544 | 123,620 | 7.92 |
| Caredig | Benyw | 99,387 | 102,369 | 3.00 |
| Cartrefi Conwy | Gwryw | 130,332 | 134,372 | 3.10 |
| Cartrefi Cymoedd Merthyr | Benyw | 114,000 | 117,420 | 3.00 |

[2] Cartrefi Cymunedol Cymru, Cyfrifon Cynhwysfawr, 2022

| Sefydliad | Rhywedd | Cyflog 21–22 | Cyflog 22–23 | % cynnydd |
|---|---|---|---|---|
| Cartrefi Cymunedol Bron Afon | Gwryw | 128,775 | 133,282 | 3.50 |
| Cartrefi Melin | Benyw | 123,734 | 127,447 | 3.00[4] |
| Cymdeithas Cartrefi Cymunedol Tai Calon | Gwryw | 111,925 | 117,521 | 5.00 |
| Cymdeithas Tai Bro Myrddin | Benyw | 100,564 | 109,287 | 8.67 |
| Cymdeithas Tai Cadwyn | Gwryw | 101,176 | 103,706 | 2.50[5] |
| Cymdeithas Tai Cartrefi Dinas Casnewydd Cyf | Benyw | 139,529 | 147,413 | 5.65 |
| Cymdeithas Tai Cymuned Caerdydd | Benyw | 104,512 | 104,512 | 0 |
| Cymdeithas Tai Dewis Cyntaf Cyf | Gwryw | 90,076 | 93,229 | 3.50 |
| Cymdeithas Tai Hafod | Gwryw | 140,980 | 145,209 | 3.00 |
| Cymdeithas Tai Merthyr Tudful | Benyw | 82,800 | 85,284 | 3.00 |
| Cymdeithas Tai Sir Fynwy | Gwryw | 128,327 | 131,664 | 2.60 |
| Cymdeithas Tai Taf | Benyw | 101,040 | 104,071 | 3.00 |
| Cynon Taf | Benyw | 91,809 | 103,000 | 12.19 |
| Grŵp ateb | Gwryw | 113,597 | 115,869 | 2.00 |
| Grŵp Cynefin | Gwryw | 98,407 | 111,189 | 12.99[6] |
| Grŵp Pobl | Benyw | 191,782 | 199,837 | 4.20 |
| Grŵp Tai Coastal | Benyw | 140,774 | 144,998 | 3.00 |
| Grŵp Tai Newydd | Gwryw | 106,652 | 114,324 | 7.19 |
| Grŵp United Welsh | Gwryw | 139,394 | 140,000 | 0.43 |
| Linc Cymru | Gwryw | 134,628 | 137,321 | 2.00 |
| RHA Cymru | Gwryw | 100,747 | 103,066 | 2.30 |


[4] Cynnydd 3% yn weithredol 01 Ebrill 2022
[5] Prif Weithredwr Interim
[6] Penodwyd Prif Weithredwr Interim

| Sefydliad | Rhywedd | Cyflog 21–22 | Cyflog 22–23 | % cynnydd |
|---|---|---|---|---|
| Stori | Gwryw | 89,448 | 94,000 | 5.09 |
| Tai Aelwyd | Benyw | 54,323 | 62,000 | 14.13[7] |
| Tai ClwydAlyn | Benyw | 133,554 | 137,561 | 3.00 |
| Tai Cymoedd i Arfordir | Benyw | 127,000 | 127,000 | 0 |
| Tai Gogledd Cymru | Benyw | 110,483 | 115,263 | 3.98 |
| Tai Tarian | Benyw | 131,917 | 136,006 | 3.10 |
| Tai Cymoedd i Arfordir | Benyw | 127,000 | 127,000 | 0 |
| Trivallis | Gwryw | 149,248 | 145,830 | – 2.29 |

## Cefndiroedd du a lleiafrif ethnig

Yn arolwg eleni uniaethodd Prif Swyddog Gweithredol un sefydliad fel bod â chefndir Asiaidd/Asiaidd Prydeinig, tra bod gan sefydliad arall Brif Swyddog Gweithredol yn uniaethu fel bod â chefndir Caribïaidd. Felly, mae 6% o Brif Swyddogion Gweithredol Cymru o grwpiau a dangynrychiolir. Mae hyn yn debyg i 2021.

**Ffigur 1:** Hil ac ethnigrwydd Prif Swyddogion Gweithredol




[7] Argymhellion Adolygiad Cydnabyddiaeth Ariannol Staff wedi'i weithredu ar gyfer cyflogau yn 2022–23

## Cymharu cyflogau Prif Swyddogion Gweithredol gyda chyflogau canolrif a nifer y staff yn ennill mwy na £100,000 y flwyddyn

Mae’r rhan hwn o’r adroddiad yn cyflwyno gwybodaeth ar gyflogau Prif Swyddogion Gweithredol ynghyd â maint sefydliad a ffactorau strwythur: trosiant blynyddol, nifer staff, nifer y cartrefi a reolir, tâl Prif Swyddog Gweithredol fesul £m trosiant, a thâl Prif Swyddog Gweithredol fesul unedau a reolir. Dylid bod yn ofalus wrth gymharu cymdeithasau tai, gan y gall fod ffactorau sy’n effeithio ar y ffigurau hyn nad ydynt yn cael eu dangos yn y tabl hwn.

Mae tâl uwch swyddogion fel arfer yn cynyddu gyda maint a chymhlethdod y gymdeithas tai.

Mae cymhareb gyfartalog canolrif cyflogau staff i gyflog Prif Swyddogion Gweithredol yn 4.48:1 (h.y. mae cyflog cyfartalog Prif Swyddog Gweithredol yn 4.48 gwaith canolrif cyflog yn eu sefydliad). Y gymhareb leiaf yw 2.30:1 a’r gymhareb uchaf yw 10.10:1

Mae rhai cymdeithasau tai yn darparu gwasanaethau gofal cymdeithasol cofrestredig a/neu wasanaethau digartrefedd a chymorth tai. Ar gyfer y rhai sy’n darparu gwasanaethau gofal cymdeithasol cofrestredig, mae cyfrifoldebau rheoleiddiol a llywodraethiant neilltuol yn ychwanegol at y rhai sy’n gysylltiedig gyda darparu tai cymdeithasol. Maent yn gyfrifol am gyflenwi contractau a gomisiynwyd, yn aml ar ran awdurdodau lleol neu fyrddau iechyd lleol.

Mae’n hysbys iawn fod swyddi gofal a chymorth fel arfer ar dâl is ar draws y Deyrnas Unedig i gyd[8]. Ar gyfer y sefydliadau hynny sy’n darparu gwasanaethau gofal a/neu ddigartrefedd a chymorth tai, mae hyn yn golygu ei bod yn debygol y bydd ganddynt gyfran uwch o staff ar gyflog is, oherwydd cyfanswm y cyllid a ddarperir gan gomisiynwyr i dalu am gost cyflogau.

Caiff cymdeithasau tai sy’n darparu gofal eu dynodi gyda seren yn y tabl isod.

Canolrif cyflogau staff ar gyfer sefydliadau yw £28,842.00 ar gyfer 2022–23. Mae hyn yn cymharu gyda £26,303 ar gyfer 21–22, sy’n gynnydd o 9%.

Roedd canolrif enillion blynyddol crynswth ar gyfer yr holl gyflogeion llawn-amser ar draws pob gwahanol sector yn y DU yn £33,062 yn 2022[9].

---

[8] Senedd Cymru, Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol, Cyllideb Ddrafft 2024-25 Llywodraeth Cymru

[9] ONS, Employee earning in the UK 2023, 2023

**Tabl 2:** Cyflogau a gyflwynwyd yng nghyswllt trosiant, unedau, prif swyddogion gweithredol o gymharu â staff, a'r nifer staff sy'n derbyn tal dros £100,000

| Sefydliad | Cyfanswm nifer staff | Trosiant blynyddol | Cartrefi a gaiff eu rheoli | Cyflog prif swyddog gweith-redol 22–23 | Cyflog prif swyddog gweith-redol fesul £m trosiant | Cyflog prif swyddog gweith-redol fesul uned a gaiff eu rheoli | Canol-rif cyflog | Cymh-areb | Nifer staff yn ennill dros £100, 000 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Adra Tai Cyf | 356 | 42,800,000 | 6,891 | 127,576 | 2,981 | 18.51 | 26,429 | 4.83 | 2 |
| Barcud Cyf | 207 | 27,818,102 | 4,350 | 123,620 | 4,444 | 28.42 | | | 1 |
| Caredig | 264 | 22,967,000 | 2,901 | 102,369 | 4,457 | 35.29 | 22,976 | 4.46 | 1 |
| Cartrefi Cymoedd Merthyr | 235 | 21,800,000 | 4,947 | 117,420 | 5,386 | 23.74 | 30,573 | 3.84 | 2 |
| Cartrefi Cymunedol Bron Afon | 418 | 51,100,000 | 8,134 | 133,282 | 2,608 | 16.39 | 31,284 | 4.26 | 4 |
| Cartrefi Conwy | 183 | 27,882,000 | 4,148 | 134,372 | 4,819 | 32.39 | 28,645 | 4.69 | 2 |
| Cartrefi Melin | 243 | 28,700,000 | 4,691 | 127,447 | 4,441 | 27.17 | 30,477 | 4.18 | 2 |
| Cymdeithas Tai Bro Myrddin | 30 | 6,100,000 | 1,043 | 109,287 | 17,916 | 104.78 | 29,418 | 3.71 | 1 |
| Cymdeithas Tai Cymuned Caerdydd | 163 | 21,580,000 | 3,065 | 104,512 | 4,843 | 34.10 | 30,531 | 3.42 | 1 |
| Cymdeithas Tai Cadwyn | 114 | 11,700,000 | 1,935 | 103,706 | 8,864 | 53.59 | 28,746 | 3.61 | 1 |

| Sefydliad | Cyfanswm nifer staff | Trosiant blynyddol | Cartrefi a gaiff eu rheoli | Cyflog prif swyddog gweith-redol 22–23 | Cyflog prif swyddog gweith-redol fesul £m trosiant | Cyflog prif swyddog gweith-redol fesul uned a gaiff eu rheoli | Canol-rif cyflog | Cymh-areb | Nifer staff yn ennill dros £100, 000 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cymdeithas Tai Cartrefi Dinas Casnewydd Cyf | 437 | 55,400,000 | 9,860 | 147,413 | 2,661 | 14.95 | 32,256 | 4.57 | 4 |
| Cymdeithas Tai Dewis Cyntaf Cyf | 45 | 9,100,000 | 377 | 93,229 | 10,245 | 247.29 | 32,897 | 2.83 | |
| Cymdeithas Cartrefi Cymunedol Tai Calon | 267 | 29,300,000 | 6,000 | 117,521 | 4,011 | 19.59 | 30,490 | 3.85 | 1 |
| Cymdeithas Tai Hafod | 1,198 | 64,700,000 | 6,208 | 145,209 | 2,244 | 23.39 | 14,383 | 10.10 | 4 |
| Cymdeithas Tai Merthyr Tudful | 44 | 6,800,000 | 1,174 | 85,284 | 12,542 | 72.64 | 30,440 | 2.80 | |
| Cymdeithas Tai Sir Fynwy | 246 | 24,280,000 | 3,800 | 131,664 | 5,423 | 34.65 | 28,423 | 4.63 | 2 |
| Cymdeithas Tai Taf | 178 | 14,000,000 | 1,544 | 104,071 | 7,434 | 67.40 | 24,336 | 4.28 | 1 |
| Cynon Taf | 97 | 13,400,000 | 1,900 | 103,000 | 7,687 | 54.21 | 29,053 | 3.55 | 1 |
| Grŵp ateb | 147 | 27,000,000 | 3,127 | 115,869 | 4,291 | 37.05 | 30,210 | 3.84 | 1 |
| Grŵp Cynefin | 316 | 33,000,000 | 4,230 | 111,189 | 3,369 | 26.29 | 29,867 | 3.72 | 1 |
| Grŵp Pobl | 2,490 | 169,800,000 | 18,334 | 199,837 | 1,177 | 10.90 | 21,191 | 9.43 | 7 |

| Sefydliad | Cyfanswm nifer staff | Trosiant blynyddol | Cartrefi a gaiff eu rheoli | Cyflog prif swyddog gweith-redol 22–23 | Cyflog prif swyddog gweith-redol fesul £m trosiant | Cyflog prif swyddog gweith-redol fesul uned a gaiff eu rheoli | Canol-rif cyflog | Cymh-areb | Nifer staff yn ennill dros £100, 000 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Grŵp Tai Coastal | 269 | 52,800,000 | 6,147 | 144,998 | 2,746 | 23.59 | 29,565 | 4.90 | 5 |
| Grŵp Tai Newydd | 170 | 21,100,000 | 3,356 | 114,324 | 5,418 | 34.07 | 28,000 | 4.08 | 1 |
| Grŵp United Welsh | 393 | 45,853,000 | 6,495 | 140,000 | 3,053 | 21.55 | 28,938 | 4.84 | 4 |
| Linc Cymru | 654 | 50,500,000 | 5,322 | 137,321 | 2,719 | 25.80 | 22,091 | 6.09 | 4 |
| RHA Cymru | 81 | 11,965,000 | 2,119 | 103,066 | 8,614 | 48.64 | | | 1 |
| Stori | 162 | 6,190,000 | 97 | 94,000 | 15,186 | 969.07 | 21,692 | 4.33 | |
| Tai Aelwyd | 21 | 1,400,000 | 268 | 62,000 | 44,286 | 231.34 | 27,000 | 2.30 | |
| Tai Clwyd Alyn | 742 | 52,500,000 | 6,390 | 137,561 | 2,620 | 21.53 | 22,926 | 6.00 | 3 |
| Tai Cymoedd i Arfordir | 274 | 37,890,000 | 6,039 | 127,000 | 3,352 | 21.03 | 27,519 | 4.61 | 1 |
| Tai Gogledd Cymru | 183 | 18,254,000 | 2,717 | 115,263 | 6,314 | 42.42 | 25,225 | 4.57 | 1 |
| Tai Wales & West | 811 | 79,470,000 | 12,320 | 166,000 | 2,089 | 13.47 | 32,300 | 5.14 | 6 |
| Tai Tarian | 516 | 54,900,000 | 9,532 | 136,006 | 2,477 | 14.27 | 26,530 | 5.13 | 5 |
| Trivallis | 424 | 60,500,000 | 11,522 | 145,830 | 2,410 | 12.66 | 45,219 | 3.22 | 3 |

## Buddion Prif Swyddogion Gweithredol

**Tabl 3:** Buddion a dderbyniwyd gan Brif Swyddogion Gweithredol a'u cyfanswm enillion yn 22–23

| Sefydliad | Tâl sylfaenol | PRP | Lwfans car | Gofal Iechyd preifat | Arall | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Adra Tai Cyf | 127,576 | | 12,721 | 1,185 | | 141,482 |
| Barcud Cyf | 123,620 | | 10,000 | | | 133,620 |
| Caredig | 102,369 | | | | | 102,369 |
| Cartrefi Conwy | 134,372 | 4,195 | 13,437 | 1,496.49 | 60 | 153,560 |
| Cartrefi Cymoedd Merthyr | 117,420 | | | | | 117,420 |
| Cartrefi Cymunedol Bron Afon | 133,282 | | | 52 | | 133,334 |
| Cymdeithas Cartrefi Cymunedol Tai Calon | 117,521 | | | | | 117,521 |
| Cartrefi Melin | 127,447 | | 7,063 | 750 | 200 | 135,460 |
| Cymdeithas Tai Bro Myrddin | 109,287 | | 7,000 | | 112 | 116,299 |
| Cymdeithas Tai Cadwyn | 103,706 | | | | | 103,706[10] |
| Cymdeithas Tai Cartrefi Dinas Casnewydd Cyf | 147,413 | | 14,741 | | | 162,155 |
| Cymdeithas Tai Cymuned Caerdydd | 104,512 | | 10,451 | 94 | | 115,057 |
| Cymdeithas Tai Dewis Cyntaf Cyf | 93,229 | | 6,526 | 522 | 13,798 | 114,075[11] |
| Cymdeithas Tai Hafod | 145,209 | | | 666 | 530 | 146,405[12] |
| Cymdeithas Tai Merthyr Tudful | 85,284 | | | | | 85,284 |

[10] Cyflog pro-rata'd seiliedig ar oriau contract
[11] Dadansoddiad cyfanswm 'Arall' – Aelodaeth Campfa – £360 Cynllun Hyfforddiant – £3,900 Tanysgrifiadau Proffesiynol – £216
[12] Taliad arall an lwfans band eang a ffôn

| Sefydliad | Tâl sylfaenol | PRP | Lwfans car | Gofal Iechyd preifat | Arall | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Cymdeithas Tai Sir Fynwy | 120,669 | 10,994 | | | 407.16 | 132,071[13] |
| Cymdeithas Tai Taf | 104,071 | | | | | 104,071 |
| Cynon Taf | 103,000 | | | | | 103,000 |
| Grŵp ateb | 115,869 | | 11,586 | | | 127,455 |
| Grŵp Cynefin | 111,187 | | 5,000 | | | 116,187 |
| Grŵp Pobl | 199,837 | | | 3,859 | | 203,696 |
| Grŵp Tai Coastal | 144,998 | | | | | 144,998 |
| Grŵp Tai Newydd | 114,324 | | | | 102 | 114,426[14] |
| Grŵp United Welsh[15] | 140,000 | | | | | 140,000 |
| Linc Cymru | 137,321 | | 13,732 | | | 151,053[16] |
| RHA Cymru | 103,066 | | | 515 | | 103,581 |
| Stori | 94,000 | | | | | 94,000 |
| Tai Aelwyd | 62,000 | | | | | 62,000 |
| Tai ClwydAlyn | 137,561 | | | | | 137,561 |
| Tai Cymoedd i Arfordir | 127,000 | | | 288 | | 127,288 |
| Tai Gogledd Cymru | 115,263 | | | 2,499 | | 117,385 |
| Tai Tarian | 136,006 | | | | 13,600 | 149,606 |
| Tai Wales & West | 166,000 | | 7,000 | | | 173,000 |
| Trivallis | 145,830 | | | 197.64 | | 146,028[17] |


[13] Arall – Cynllun Arian Meddygol
[14] £101.88 Cynllun iechyd arian
[15] Mae gan y Prif Swyddog Gweithredol lwfans car cyfunol o fewn y cyflog
[16] Mae'r Prif Swyddog Gweithredol yn derbyn budd diogelu incwm a marwolaeth mewn gwasanaeth
[17] Dechreuodd Prif Swyddog Gweithredol newydd gyda Trivallis ar 01.01.23 – Mae'r wybodaeth cyflog yn seiliedig ar flwyddyn newydd.

# Cymeradwyo dyfarniad tâl uwch swyddogion

Yn yr arolwg hwn, fe wnaethom ofyn i gymdeithiau tai sut y caiff dyfarniadau tâl uwch swyddogion eu cymeradwyo. Roedd modd dewis mwy na un dull cymeradwyo. Dywedodd:

- 67% mai pwyllgor cydnabyddiaeth ariannol oedd yn cymeradwyo dyfarniadau tâl uwch swyddogion;
- 41% mai'r bwrdd oedd yn gwneud hynny, a;
- 11% 'arall'.

**Ffigur 2:** Dull ar gyfer cymeradwyo dyfarniadau tâl uwch swyddogion




Gan weithredu ar adborth, eleni roeddem eisiau rhoi mwy o gyd-destun ar gyfer y broses benderfynu, felly gofynnwyd cwestiynau ansoddol i ymatebwyr am y broses cydnabyddiaeth ariannol o fewn eu cymdeithasau tai.

Mae dulliau ychwanegol sy'n sylfaen i benderfyniadau tâl uwch swyddogion yn cynnwys:

- meincnodi allanol;
- cynlluniau busnes a modelu ariannol;
- mae rhai cymdeithasau tai yn cynnal trafodaethau gydag undebau llafur;
- costau byw.

Mae amrywiaeth o wahanol ddulliau ledled y sector yn nghyswllt tâl uwch swyddogion. Mae llawer o gymdeithasau tai yn gweithredu polisi cydnabyddiaeth ariannol safonol sy'n weithredol at bob lefel o'r sefydliad tra bod gan rai bolisi penodol ar gyfer cydnabyddiaeth ariannol uwch swyddogion.

**Astudiaeth achos 1:** Dull un gymdeithas tai o osod tâl uwch swyddogion

Mae gan y gymdeithas tai hon bolisi ar dâl uwch swyddogion sy'n manylu'r prosesau. Caiff adroddiad ei baratoi sy'n cyflwyno'r pecyn presennol a cymhariaeth sector. Pan fo aelodau 'r bwrdd yn credu fod angen hynny, caiff adroddiad ei gomisiynu gan gwmni annibynnol sydd ag arbenigedd yn y sector.

# Tâl i aelodau bwrdd

Yn y rhan hwn o'r arolwg fe wnaethom ofyn cwestiynau am gydnabyddiaeth ariannol i aelodau bwrdd. Mae 652% o gymdeithasau tai yn rhoi taliad anweithredol i aelodau bwrdd. Mae 18% yn cynnig pecyn treuliau yn unig, tra bod 20% yn cynnig pecyn 'arall', sy'n bennaf yn gyfuniad o bolisi treuliau a thaliad anweithredol.

Mae gan gymdeithasau tai wahanol strwythurau llywodraethiant a all effeithio ar gyfansoddiad bwrdd eu sefydliadau. Er enghraifft, mae gan sefydliadau trosglwyddo ar raddfa fawr aelodau bwrdd o awdurdodau lleol ac efallai na fyddant yn rhoi cydnabyddiaeth ariannol i'r aelodau hyn ond yn gwneud hynny i aelodau eraill.

Dywedodd un gymdeithas tai fod pob swydd ar y bwrdd yn derbyn tâl yn 2022–23 a bod ei gyflogau anweithredol yn amrywio o £3,605 i £7,725 y flwyddyn.

# Dadansoddiad tâl yn ôl rhywedd

## Dadansoddiad rhywedd Prif Swyddogion Gweithredol

Yn 2022–23 roedd 17 o Brif Swyddogion Gweithredol yng Nghymru yn wrywod a 17 yn fenywod. Mae hyn yn golygu fod 50% yn wrywod a 50% yn fenywod. Mae hyn yn cymharu â chymhareb o 58%:42% o fenywod i wrywod yn 2021–22.

**Tabl 5:** Cyflogau isafswm, canolrif, uchafswm a chymedrig Prif Swyddogion Cyffredinol gwryw a benyw

| Mesur | Gwryn | Benyw | Cyfan |
|---|---|---|---|
| Isafswm | 93,229 | 62,000 | 62,000 |
| Canolrif | 123,620 | 117,420 | 116,644 |
| Uchafswm | 145,830 | 199,837 | 199,837 |
| Cymedrig | 121,920 | 122,888 | 122,403 |
| Nifer | 50% | 50% | 100% |

## Cymedrig bwlch tâl yn ôl rhywedd

Mae Llywodraeth y DU yn ei gwneud yn ofynnol i gyflogwyr gyda mwy na 250 o gyflogeion i gyhoeddi data ar y bwlch tâl yn ôl rhywedd. Mae hyn yn golygu na chaiff yr holl sefydliadau a gymerodd ran yn ein harolwg eu cynrychioli yn yr adran hon. Nid yw'n ofynnol i lawer o gymdeithasau tai gyhoeddi data yn ôl y gyfraith ond maent yn gweithio yn ysbryd y ddeddfwriaeth.

O'r 34 cymdeithas tai yng Nghymru, mae'n ofynnol i 14 gyhoeddi adroddiadau ar y bwlch cyflog rhwng y rhywiau. Mae rhai cymdeithasau tai yn adrodd hynny er nad yw'n ofyniad cyfreithiol iddynt wneud hynny.

**Tabl 6:** Canolrif bwlch cyflog rhwng y rhywiau

| Sefydliad | Canolrif bwlch cyflog rhwng y rhywiau |
|---|---|
| Adra Tai Cyf | 0% |
| Barcud Cyf | |
| Caredig | 11.4% |
| Cartrefi Conwy | 11.34% |
| Cartrefi Cymoedd Merthyr | |
| Cartrefi Cymunedol Bron Afon | 11.5% |
| Cymdeithas Cartrefi Cymunedol Tai Calon | 9.3% |
| Cartrefi Melin | |
| Cymdeithas Tai Bro Myrddin | |
| Cymdeithas Tai Cadwyn | 4.63% |
| Cymdeithas Tai Cymuned Caerdydd | -6.43% |
| Cymdeithas Tai Cartrefi Dinas Casnewydd Cyf | 6.68% |
| Cymdeithas Tai Dewis Cyntaf Cyf | |
| Cymdeithas Tai Hafod | 9% |
| Cymdeithas Tai Merthyr Tudful | 0% |
| Cymdeithas Tai Sir Fynwy | 14.82% |
| Cymdeithas Tai Taf | 2% |
| Cynon Taf | |
| Grŵp ateb | |
| Grŵp Cynefin | 12% |
| Grŵp Pobl | 11.32% |
| Grŵp Tai Coastal | -1.4% |
| Grŵp Tai Newydd | -2.8% |
| Grŵp United Welsh | -2.8% |
| Linc Cymru | 19.9% |

| Sefydliad | Canolrif bwlch cyflog rhwng y rhywiau |
|---|---|
| RHA Cymru | 4.99% |
| Stori | |
| Tai Aelwyd | |
| Tai ClwydAlyn | 16.89% |
| Tai Cymoedd i Arfordir | |
| Tai Gogledd Cymru | 2.37% |
| Tai Tarian | -2.4% |
| Tai Wales & West | 10.9% |
| Trivallis | 6.4% |